Cyfres Llanbedr | Mehefin 1927 | Cyf. 27. Rhif 6.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. | Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

MAM.
Y DDWY WELEDIGAETH.
YSGOLIA.
SWYDDOGAETH YR YSGOL SUL.
ADOLYGIADAU.
PRIODAS.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Y Geiriadur Beiblaidd.

Gellir cael yr uchod yn awr wedi ei rwymo yn gyflawn mewn Dwy Gyfrol hardd. . . .

Dwy Gyfrol—Canvas Cloth, Gilt Lettered, £2/2/- y Set.
Dwy Gyfrol—Quarter Levant Morocco, Gilt Lettered, £2/10/- y Set.

I'w cael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

ARGRAFFWAITH.

Anfonwch eich archebion am ARGRAFFU o bob math i SWYDDFA'R "YMOFYNNYDD," LLANDYSSUL. Gwaith glan, destlus a chywir gyda'r dyfeisiadau peiriannol diweddaraf, ac am brisiau rhesymol. Sylw personol i bob ymholiad.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MEHEFIN, 1927. Cyf. XXVII. Rhif 6.

MAM.

(Awst 1, 1853—Mai 11, 1927.)

DDOE bum yng Ngwarnant ac yr oedd yn wâg—gwacach nag y'i gwelais erioed o'r blaen. Yr oedd yn wâg am nad oedd MAM yno mwy. Arferwn son am fynd gartref, hyd at roi sen i'm cartref bach fy hun, ond rywsut ni ddaw'r gair dros y wefus fel cynt a gwn am deimlad calon Islwyn, "*Tra fo Mam, cartref i mi.*"

Ni fedraf feddwl am dano heb Mam. Yno ar yr hen aelwyd lân a chysurus y'i cofiaf gyntaf, a mi ond megis wedi agor fy llygaid gwirion ar y byd. Beth bynnag yw'r darlun, y mae Mam ynddo bob tro. Ni chofiaf i mi ddychwelyd adref erioed a'r drws ynghlo. Pwy bynnag fuasai wedi mynd, yr oeddwn yn berffaith sicr y buasai Mam yno, a digon oedd i mi. Trois yno ddoe gan eistedd ar yr hen aelwyd ond ni symudais namyn dyn dieithr, a theimlais fy nhu fewn yn rhoi tro o deimlo fy hun fel dieithryn yno o bob lle. Bob tro cyn hyn gwyddwn y buasai gwên a chroeso yn fy nisgwyl a deigryn wrth fy mynd. Ni ddown byth yn rhy aml ond i'r gwrthwyneb. Duw yn unig wyr galeted fu troi yno ddoe. Y mae gan bob un olwg ar ei fam ond ni chredaf i fam erioed aberthu mwy gan roddi ei hun yn gyfangwbl i'w theulu. Ni chredaf i'r byd erioed ei hadnabod. Yn ei chartref y carai fod ac yno bu am hanner canrif. Gwyddem ni am ei chalon garedig, am ei haberth ddiflin ond ofer dywedyd ond y gwyddem ni am Mam, a gwyddai Mam am danom ninnau. Yr oedd yn ein hadnabod, yn well ond odid na ni ein hunain. Ni ddwedai lawer ond pan fai galw a hynny ar y nodyn clir ac uchel. Gwelodd ei siar o ofidiau a chofiaf am y blewyn gwyn cyntaf yn ei gwallt ac ar waethaf y poen a'r nychdod hir ni rychwyd mo'i grudd. Nid croes ysgafn ydoedd ffarwelio a chymar bywyd a thri mab ym mlodau'u dyddiau a hynny mewn rhyw bymtheg

mlynedd ond ni rwgnachodd. Yr oedd ei golwg yn olau ar fywyd. Ar ei gwely cystudd ni ofynnai ond amdanom. Doem a helyntion bywyd iddi a charai imi fynd dros ambell bregeth fach o'm heiddo ac ni ddisgwyliaf mwy gael calon a mwy o gydymdeimlad ynddi i'm gwrando i. Yr oedd yn fy neall ac ni ŵyr ond y Nefoedd a minnau fy nyled iddi.

Yr wyf wedi fy amddifadu "yngolwg ond nid ynghalon." Ni chlywaf ond atsain ei llais melys yn fy nghlust. Carwn ysgrifennu amdani ond ni fedraf. Y mae'r cyfan y sydd i'w ddywedyd yn y gair *Mam*. Cofiaf yn dda un noson a minnau yn gwylio wrth yr erchwyn. Yr oedd y nos yn dywyll ac oer a hithau'n wan. Teimlwn fod angeu fel rhyw bresenoldeb anweledig wrth y drws a minnau'n gwarchod. Yr oedd y nos yn hir a'r anadl yn byrhau ond ar las y wawr daeth deunod y gog hyd ataf—y tro cyntaf imi ei chlywed eleni, a methwn yn fy myw beidio gofyn imi fy hun ai nid oedd deunod y gog yn ddim amgen na ffordd Duw o sibrwd cysur a gobaith wrth galon friw. Pwy ŵyr? Cân y gog o hyd ond hunodd Mam.

Mewn hiraeth wyf o huno MAM
Ond eto'n methu wylo dagrau—
Fe'i carwn, gwnawn, nid dyna pam;
Mewn hiraeth wyf o huno Mam,
A charwn wylo'n drist bob cam
Fel eraill wedi colli'u mamau;
Mewn hiraeth wyf o huno Mam
Ond eto'n methu wylo dagrau.

O golli Mam mor wâg yw 'myd
A'r galon hithau wedi torri;
Fe hunodd wedi nychu cyd,
O golli Mam mor wâg yw 'myd—
Mwy, du'r blynyddoedd ar eu hyd
A charwn i ddioddef drosti;
O golli Mam mor wâg yw 'myd
A'r galon hithau wedi torri.

* * *

Nid oes ond cofio'r dyddiau gynt
Ac fe ddaw Mam yn ol mewn ysbryd;
Mae'i llais i'w glywed yn y gwynt,
Nid oes ond cofio'r dyddiau gynt—
Diofid ydwyf ar fy hynt
O gaffael cwmni Mam drwy mywyd;
Nid oes ond cofio'r dyddiau gynt
Ac fe ddaw Mam yn ol mewn ysbryd.

Y Ddwy Weledigaeth.

" Wyneb y pruddglwyf wenai,
Weld llwyn a maes mwyn ym mis Mai.

GWILYM CAWRDAF, bardd nad oes nemor o son am dano heddiw, a biau'r ddwy linell uchod. Dichon nad ydynt yn rhestru'n uchel fel barddoniaeth, ond y maent yn deyrnged gywir i gyfaredd mis Mai. Dysgais hwy lawer blwyddyn yn ol, a deuant ataf o'r newydd ar drothwy'r haf :—

" Wyneb y pruddglwyf wenai."

Os ydyw'r portread a roddir o Wilym Cawrdaf ar ddechreu ei lyfr yn adlewyrchu'r " gwreiddiol," yr oedd cryn fesur o'r pruddglwyf yng nghyfansoddiad y bardd ei hun. Dichon mai hynny a barodd iddo ganu mor odidog am " Hiraeth y Cymro am ei wlad." Ond yr oedd ei wyneb yn gweddnewid yng ngwyddfod swynion haf :—

" Gweld llwyn a maes mwyn ym mis Mai."

Ie, eu *gweld*. Nid eu meddiannu, ond eu gweld. Ond rhaid wrth lygad i fedru gwneud hynny. Dyna gynysgaeth y gwir fardd—yr unig gynysgaeth a fedd, yn y fuchedd hon! Ond y mae'n " rhodd nefol," ac yn galluogi ei pherchen i weld yr hyn sydd yn guddiedig i'r llygad noeth. Dywedai Doctor Hutton, y dydd o'r blaen fod Francis Thompson—un o boetau mwyaf ei gyfnod, wedi bod yn ennill ei fywoliaeth (?) wrth ddal pennau'r ceffylau yn y Strand, Llundain, am y swm aruthrol o chwecheiniog y dydd! Ond yr oedd ganddo weledigaethau na allai'r miliwnydd cyfoethocaf eu prynu ag aur coeth. Gwelodd " ysgol Jacob " pan ddaliai ffrwynau'r meirch :—

" Pitch'd betwixt Heaven and Charing Cross."

Y mae miloedd yn pasio'r llecyn hwnnw yn feunyddiol, a heb weld dim ond Charing Cross. Gwelodd y breuddwydiwr oedd yn dal pennau'r ceffylau, ac yn byw ar chwecheiniog y dydd, rywbeth anfesurol fwy. Gwelodd lesni'r nef, a'r ysgol aur yn pontio'r gagendor.

* * *

Dichon mai rhyfyg, yng ngolwg rhyw ddosbarth o feirniaid, ydyw cyplysu enw Gwilym Cawrdaf ag enw Francis Thompson.

Gwyddom fod cylchfyd y ddau yn dra gwahanol. Ond yr oedd y Cymro yn medru gweld "y berth yn llosgi" mewn mannau na welai eraill ddim ond y berth ei hun :—

"Gweld llwyn a maes mwyn ym mis Mai."

Ie, ym mis Mai. Y mae cyfnodau yn hanes y maes a'r llwyn heb ddim arbennig ynddynt. Y mae'r llwyn heb ddail, heb gân ; y maes yn llwm a gwelw, heb un blodyn yn tyfu ar ei ymylon. Nid dyna'r adeg oreu i weled y naill na'r llall. Ond, aroswch, daw mis Mai ar ei dro, a daw ceinder i ogoneddu'r mannau a fu heb swyn na thegwch. Yr oedd yr anelwig ddefnydd yn bod yn y dyddiau a fu. Cyfnod y paratoi oedd hwnnw, ac y mae pob paratoad yn cymryd lle o'r golwg. Nid ydyw'r arlunydd yn caniatau i'r cyhoedd syllu ar y cynfas nes y bo'r darlun wedi ei orffen mewn llun a lliw. Ac y mae Natur yn debig. Y mae ganddi ei hadeg i ddangos y darluniau gorffenedig. Dyna ydyw mis Mai. Y mae drysau'r oriel yn cael eu hagor, a maes a llwyn yn dod yn ystafelloedd llydain, braf, er inni gerdded yn hamddenol drwyddynt. Cewch garped newydd-gre-edig dan eich troed, a cherddorfa ddihafal i lanw'r awel a miwsig a chân.

* * *

Y nos o'r blaen, yr oeddwn yn gwrando cyngerdd yn Llundain, drwy gyfrwng y *wireless*, ac ar y rhaglen yr oedd cantores enwog yn efelychu odlau'r Eos. Ardderchog iawn, ond efelychiad ydoedd.

"Glywsoch chwi yr eos ei hun ?" ebai rhywun yn y cwmni.

Do, siwr. Mi ai clywais yn y dyddiau gynt, pan yn fachgen yn Rhosymedre. Daeth y si i'r pentre hwnnw fod yr eos yn canu ym Mharc Wynnstay. Mor dda y cofiaf y noson pan aeth mintai o lowyr—a minnau yn rhywle yn y dyrfa, i wrando'r eos. Cerddem yn ddistaw dan gysgod y coed. Teyrnasai hudoliaeth yr hafnos ar y fro. Hafal ydoedd i'r hyn a ddisgrifia Shakespeare yn ei ddrama dlos—"A midsummer night's dream." Braidd na thybiem fod elfodau a thylwyth teg yn dawnsio ar y glaswellt dan wenau'r lloer. Ond, yn y man, dyna nodau dwfn fel alaw hiraeth yn dod o'r goedwig. Aeth pawb yn fud. Dim ond llais yr eos yn treiddo trwy gynteddau'r nos. Am ba hyd y canodd ? Wn i ddim. Nid oedd amser yn bod yn y byd yr oeddym ynddo ! Ond yr oedd y rhai a wyddai am fiwsig yn dweyd wed'yn mai yn y *minor* yr oedd y nodau gan mwyaf. A oedd yr eos honno fel yr un a glywsai Alun yn canu a "phigyn dan ei bron." Dichon ei bod. Fodd bynnag, nid ä'r gân yn angof byth. A phan wrandawn foneddiges

yn Llundain yr oeddwn yn gorfod teimlo—er cystal oedd—nad ydoedd namyn efelychiad gwan o'r eos ei hun.

* * *

Ond dyna hanes y cyfnod hwn. Yr ydym yn boddloni ar "efelychiadau" celfyddydol, ac yn anwybyddu yr hyn sydd yn rhoddi bod iddynt. Da ydyw'r efelychiad, ond nid cystal a'r gwreiddiol—

"Gweld llwyn a maes mwyn ym mis Mai."

Y mae eisieu ymlid y pruddglwyf i ffwrdd. Y mae'r "wyneb" hwnnw yn hawdd ei nabod. Onid ydym yn ei weled bob Saboth. ac yn amlach na hynny. Nid oes gwên yn agos ato. Erys fel delw ond heb ddim mynegiad o gwbl. A oes meddyginiaeth ar gyfer hyn oll? Oes, ebai Gwilym Cawrdaf, a chredwn ei fod yn siarad oddiar brofiad:—

"Wyneb y pruddglwyf wenai."

Beth a bair iddo wneud hynny? Mynd am dro drwy oriel mis Mai, ebe'r bardd. Daw i fedru gwenu wed'yn. Tybed? Onid yw'r cyngor yn rhy syml? Y mae'n werth rhoddi praw arno, a dweyd y lleiaf am dano:—

"Gweld llwyn a maes mwyn."

* * *

Ydyw, y mae'r pethau yna yn werth eu gweled. Mis y gwenau ydyw Mai. Gall wenu trwy ddagrau. Onid oes gwên yn llygad y blodyn a'r gwlithyn ar ei rudd? A phan safwn ar fin y llwybr, priodol fyddai sibrwd y llinell sydd yn cyfeirio at Lyfr arall:—

O! agor fy llygaid i weled.

Y mae *grym* bywyd pob dyn yn ei alwedigaethau. Dyna ei gyfalaf gwirioneddol, ac ni all Cyllideb y Llywodraeth effeithio dim ar hwnnw. Gall y gyflog fod yn ychydig, a'r tal materol yn druenus o fychan. Dim gwahaniaeth. Dim ond chwecheiniog oedd tal Francis Thompson am ddal pennau ceffylau yn y Strand. Ond rhaid chwanegu y "weledigaeth nefol." Chwecheiniog, ac ysgol "Jacob!"—wedi ei lleoli cydrhwng nefoedd Duw a Charing Cross. A fedrwch chwi wneud y *sum* yn awr? Rhaid wrth *arithmetic* byd uwch i rifo golud y nefolion leoedd.

ANTHROPOS.

Ysgolia.

ER nad wyf hên, dywedir fy mod yn dechreu babanu oherwydd caru ohonof son am 'slawer dydd. Af bob cyfle i roi tro am hen gyfaill imi, hen wr penwyn. Cryma'i war ac y mae ei ddwy benlin yn mynd a mwy o olwg ar ei gilydd ganddynt beunydd. Y mae'i ên yn crynu a'i ddwylo geirwon yn cydymdeimlo a hi. Y mae'i ddau pen yn nes at ei gilydd nag y bu dau pen y llinyn ganddo, chwedl yr hen bobol, lawer tro. Cofia am amser Beca a thorri'r gât a gyrru'r wedd i'r odyn galch a gweld ambell leidr penffordd. Er pallu o'r olwg a'r clyw, y mae'r cof am 'slawer dydd yn dal yn fyw er iddo anghofio i chwi alw arno ddoe 'n fynych. Neithiwr ddiweddaf, gadewais y trympeg gan droi i'r lôn sy'n arwain at fwthyn gwyngalchog to gwellt. Nid oedd brys arnaf. Oedais wrth iet yr ardd a ble'n gynt y ceid tato newydd slawer dydd. Gwelais ei bod hithau'n blino'i ddisgwyl ac yn mynnu ei ffordd ei hun bellach gan roi danadl a dail tafol lle gynt bu'r gwely cennin. Ger drws y ty tyfai'r *Hen Wr* ac ni fedraf basio llwyn o Hen Wr heb dorri tamaid ohono. Dwg ei arogl 'slawer dydd yn ol. Gwyddwn lle ceid y Wermwd Lwyd, y Teim a'r O rownd, ac er fod y border bach yn ddigon anniben, y mae'r Ddeilen Fraith yn dal i wenu drwy'r chwyn i gyd.

Wedi cnocio'r drws, clywwn ymysgwyd o'r tu fewn, ambell besychiad hir a gwichlyd, ynghyd a mwstwr chwilio'r ffyn a chodi. O aros ennyd fe'i clywwn yn dod fel dau o'r gloch a gwyddwn fod amser wedi cynnyg llu o gastiau cyn troi fforman y fedel gynt yn henwr dall methiedig. Codais yr hen latch bren o'i waith ei hun gan fynd i mewn ato rhag achosi trafferth iddo. Cyferchais well iddo. Adnabu fy llais er na welai mohonof a dywedodd wedi pesychu ennyd,—

" Dere mlân, machgen i,"

Eisteddais ar yr hen ffwrwm fach a'm cefn ar balis y lwfer. Yr oedd yn dywyll—tywyllach yn y ty nag ydoedd allan er fod y " llin yn mygu " ar y pentan.

" Shwt wyti," gofynnai rhwng dau besychiad.

" Lled dda," atebais, " ond y mae'ch brest chwi yn gyfyng heno eto."

" Ydy wir ; yr hen fogfa yma," meddai, a'r ateb yn dod megis gyda'r peswch.

"Wyddost ti beth," meddai, "cefais freuddwyd od neithiwr. Do wir! Yr oeddwn yn ol yn yr Hendre'n bugeilio'r haf cyntaf a minnau ond prin deg oed. Gwelwn yr hen gegin fawr bryd swper a ninnau i gyd yn eistedd wrth y ford fawr, y gwas mawr, yr ail was, minnau'n fugail bach a deilad gyda'r ddwy forwyn, heblaw dau ddyn hur. Wrth y ford fach ger y tan eisteddai meistr a meistress, a chofiaf i Catrin Shams droi gwyn ei llygad arnaf pan welodd fi yn torri ail doc o gaws. 'Dau doc o gaws i'r bugail bach," meddai. 'Pwy glywodd erioed son am fath beth.' Druan o Gatrin Shams! Hen fenyw biwr ydoedd ond ei bod yn glos. Amser caled ydoedd, a chware teg iddi. Ymhen tipyn meddai eilwaith wrth ei gwr, 'Wn i yn y byd beth sydd yn mynd i ddod o'r hen fyd yma. Meddyliwch! Y bugail bach yn mynd i'r Ysgol am gwarter o ysgol fel pe buasai'n fab i'r scweier ac yn berchen yr Hendre.' Yr oedd peth cywilydd arnaf pan chwarddodd y gwas mawr gan ofyn a oeddwn yn bwriadu newid cot y bugail am wisg wen y ffeirad."

Chwarddai a phesychai'r hen wr o feddwl mor bell y bu 'i fyd ef oddiwrth awgrym y gwas mawr.

"Aethoch chwi i'r ysgol?" meddwn innau er fy mod yn gwybod yn iawn.

"Shwr iawn," oedd ei ateb parod, "yr oeddet ti'n meddwl na bu neb yn ysgolia tipyn ond ti. Do! Do! Buais innau'n ysgolia 'slawer dydd a chware teg i hen wraig mam, gwnaeth ei goreu. Yr wyt yn gwybod am y Pistyll Gwyn ac nid oes ond un Pistyll Gwyn i ni'n dau. Heb fod ymhell a thu fewn i wal y fynwent y mae olion hen fagwyren. Rhyw fwthyn to cawn ydoedd fel "ty unnos" y cwmins. Tebig iawn i dŷ côd yr Hendre, gydag un ffenestr yn ei dalcen a ffwrymau digon garw i eistedd arnynt. Cofiaf fel ddoe am danaf yn mynd y bore cyntaf. Teimlwn yn gryn wr bonheddig oherwydd yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng codi gyda'r haul a mynd i'r ysgol erbyn naw. Yr oedd gennyf drowser rib gwyn a glân a dau glwtyn mawr ar y ddwy benlin, ond y trueni mawr oedd nid oeddent o'r un shade; cot ar ol un o blant yr Hendre, par o glocs am fy nhrâd a thocyn o fara a chaws yn fy mhoced. Yr oedd gennyf "Spelling Book" ar ol brawd hŷn a hen gopi o'r Beibl Saesneg, a dyna ddigon o dasg am gwarter ta beth. Gwelaist fuwch newydd yn cael ei throi i'r cae a'r holl dda yn troi am dani er gweld ei nheges. Tebig iawn y troe'r bechgyn a'r merched am danaf innau wrth iet y fynwent. Yr oeddynt hwy fel Catrin Shams yn methu deall fod eisiau ysgolia bugail bach."

yn ei amser a'r defnyddiau oedd ganddo at ei wasanaeth y syndod yw ei fod wedi cyflawni cymaint o waith mor ardderchog.

Yr enw arall y dylesid cofio am dano ar achlysur fel hwn yw eiddo Thomas Charles o'r Bala. Dywedodd Thomas Charles yn ei deyrnged o barch i Griffith Jones, Llanddowror ei fod yn un o'r cymwynaswyr goreu a welodd crefydd ac addysg Cymru erioed. Dug dystiolaeth uwch fyth iddo drwy geisio parhau ei waith a hyny ar hyd yr un llinellau bron. Gwir arloeswyr—pioneers—oedd Syr John Prys, Griffith Jones a Thomas Charles. Buont fel ser yn ffurfafen Cymru pan oedd tywyllwch nos anwybodaeth yn drwm arni a haul addysg a diwylliant heb ymddangos ar y gorwel. Onibae am eu llafur a'u llwyddiant mae'n ddigon posibl na fyddai'r Ysgol Sul wedi dyfod i fodolaeth o gwbl. Mae pob ffrwyth teilwng o'r enw yn golygu llafur. Cyn y ceir cynhaeaf yn ei dymor rhaid wrth baratoad yn y gwanwyn. Wrth gofio am ein rhwymedigaeth i'r dyddiau gynt arweinir ni weithiau i werthfawrogi ein breintiau ac i sylweddoli ein dyledswydd tuag at y presennol a'r dyfodol. Ac fe ddwg hyn ni ar unwaith at y cwestiwn sydd gennym yn awr o dan sylw—sef Swyddogaeth yr Ysgol Sul, a sylwer yn fanwl ar y geiriau ddefnyddir—Swyddogaeth yr Ysgol Sul. Gwyddom beth olygir wrth swydd ac fe wyddom hefyd beth olygir wrth swyddog. Fe'n hadgofir ni gan y gair swyddogaeth fod i'r Ysgol Sul nid yn unig le i'w lanw—swydd, ond hefyd amcan i gyrraedd ato—swyddogaeth. Daeth yr Ysgol Sul fel yr adwaenem ni hi heddyw i fodolaeth ganrif a hanner yn ol. Cysylltir ei chychwyniad yn gyffredinol ag enw Robert Raikes. Mewn ystyr nid oes amheuaeth nad yw hyn yn gywir. Ond fel y gwelsom yn barod fe fu yna arloeswyr i'r Ysgol Sul megis ag y mae yng nglŷn a phob symudiad arall. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif teimlai llawer fel Theophilus Lindsey i enwi Undodwr fel un engraifft—fod cyflwr yr oes yn galw am sylw yn ddioedi. Dywedir mai yr hyn a arweiniodd Raikes i gymeryd y mater mewn llaw oedd sylwi ar y modd diamcan ac anweddaidd y treulid y Sul gan y plant a'r bobl ieuainc. Nid oedd llawer o welliant wedi digwydd er pan oedd Syr John Prys wedi dihuno i gyflwr y wlad yn agos i ddwy ganrif a hanner yn flaenorol. Dengys hyn ei bod yn ofynol i bob ymdrech dros ddaioni i fod yn gyson a pharhaus. Cyn gynted ag y llaesir dwylaw y mae pethau yn myned yn ol i'r un man ar unwaith, " yr hwn a barhao hyd y diwedd, efe fydd cadwedig." Gellir priodoli llwyddiant yr Ysgol Sul i'r ffaith fod yna olyniaeth ddidor o athrawon wedi cysegru eu hunain i'r gwaith ar hyd y blynyddoedd. Teilynga Raikes barch yn bennaf am mae efe oedd y cyntaf neu o leiaf y mwyaf llwyddiannus i osod y dychymyg mewn gweithrediad ymarferol. Ar ol iddo sylweddoli cyflwr ei amgylchedd casglodd

yn ddioedi nifer o blant at ei gilydd a sicrhaodd athrawon—neu yn hytrach athrawesau—i'w dysgu ar ei draul ei hunan. Ac i'r cam hwn ar ran Raikes tua'r flwyddyn 1780 y mae i ni olrhain dechreu yr Ysgol Sul fel symudiad. Wedi sylwi fel yna yn fyr ar y modd y cafodd ei chychwyn gadawer i ni geisio deall beth oedd natur a gwerth y gwaith gyflawnwyd gan yr Ysgol Sul yn ystod blynyddoedd cyntaf ei bodolaeth.

Fel y gwelwyd prif amcan Raikes ac ereill o'i gydoeswyr a oedd yn gyfrannog o'i ysbryd ydoedd denu y plant a'r bobl ieuainc oddiwrth arferion a chyfeillachau peryglus i awyrgylch wahanol lle y caent anogaeth i dyfu mewn rhinwedd a doethineb a ffafr gyda Duw a dynion. Nid oes yna ddim sydd yn fwy dinystriol i ddyn ac yn enwedig i blentyn na'i adael yn agored a diamgeledd i bob dylanwad a ddigwydd ddisgyn arno o'r byd allanol. "Mischief will ever find something for idle hands to do" meddai'r hen ddywediad. "Beth sydd yn myned mlaen yna yn awr?" gofynnai athraw i blentyn unwaith yn yr ysgol. "Dim, Syr" atebai yntau. "Wel, peidiwch a'i wneud eto ynte" meddai'r athraw. Hyn mewn gweithred os nad mewn gair oedd neges cyntaf yr Ysgol Sul. Un o'i phrif amcanion oedd creu blas at rywbeth da a sylweddol. Ac mewn cysylltiad agos a hyn cyflawnodd ddwy gymwynas werthfawr arall yn ogystal. Ar un llaw gosododd bwyslais ar gydraddoldeb. Symudiad cymdeithasol o'r fath oreu yw yr Ysgol Sul. A hi yn ffyddlon i'w delfrydau nid oes lle o'i mewn i wahaniaethau o unrhyw natur ond y mae pawb yn gydradd a'i gilydd. Eto mhellach, bu yr Ysgol Sul yn offeryn nerthol i ledaenu addysg elfennol. Yr oedd cyflwr pethau yn wahanol iawn yn ystod y ganrif gyntaf y bu yr Ysgol Sul mewn bod i'r hyn ydynt heddyw. Nid oes nemor i ddim sydd yn fwy cyffredin nac yn rhatach y dyddiau hyn nag addysg. Rhyw ganrif yn ol ar y llaw arall yr oedd mor brin a chostus nes bod bron yn amhosibl i'r mwyafrif fedru mwynhau unrhyw fanteision diwylliant o gwbl. Disgwylid i blant ieuainc wyth a naw oed weithio yn galed o'r bore hyd yr hwyr. Nid oedd ganddynt ar y goreu ond y Sul i dalu sylw i ddim arall. Ond gydag ychydig o hunanaberth yr oedd cyfleusdra o fewn cyrraedd o'r diwedd yn yr Ysgol Sul i feithrin y meddwl a'r ysbryd. Ychydig amser yn ol peth cyffredin oedd clywed llawer o'r dynion mwyaf dysgedig a dylanwadol yn y byd yn tystiolaethu mai i'r Ysgol Sul yn fwy na dim arall yr oeddynt yn ddyledus am y cwbl a feddent. Ceir fod hyn o hyd yn wir i fesur. O dro i dro clywir rhai o flaenoriaid y Blaid Lafur yn dweyd na fyddent wedi medru cymryd yr un rhan mewn bywyd cyhoeddus ar wahan i'r cymorth a gawsont mewn rhyw Ysgol Sul neu gilydd. Ond yn fwy na'r cyfan bu yr Ysgol Sul yn foddion i wella cymeriad ac i gymhwyso dynion ar gyfer teyrnas Nefoedd,

Pe bai gofod ac amser yn caniatau gellid rhoddi cnewllyn y saith darlith arall. Efallai fod digon wedi ei ysgrifennu i arwain rhywrai o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd i edrych drostynt eu hunain i'r llyfr godidog hwn.—T. Eric Davies, *Halifax, N.S.*

"Murmuron Newydd—Telynegion Nantlais," (oddiwrth yr awdur y Parch. Nantlais Williams, Ammanford. Pris 1/-.)

A minnau yn y gwely am fythefnos gan anhwyldeb, un bore daeth cyfrol fechan o farddoniaeth i'm llaw. Ni feddyliais odid ddim ar y dechreu ond gan nad oedd gennyf hwyl at ddarllain, trois dudalennau'r gyfrol fach yn ddifeddwl ddigon. Wrth ddarllain felly, teimlwn rhyw swyn yn y caneuon hyn. Mor naturiol y cân am Ffynnon Clawcoch—

"Heibio i'r hen amaethdy clyd,
Yn cofio'r ci—ac yn crynu;
Ond ambell dro yn anghofo'r byd,
Yn chwifio'r ysten, a chanu."

Medr ddehongli Ysbryd y Robin yn dlws dros ben—

"Mae'r glân a'r diniwed,
Y pur a'r dinam,
Yn mentro i bobman
Heb wybod paham."

Ni chais Nantlais chware triciau. Cân ei awen lednais yn hollol naturiol. Ni ddilyn y ffashwn mewn mesur na dim. Syml yw ei destunau megis Ffynnon Clawcoch, Gwledd y Brenin, Y Deryn Du, Fy nghartref i, Y Nyrs, Pistyll y Cwm, Litani'r Cynhaeaf ac yn y blaen. Y mae'n chwaethus mewn testun ac awgrym, ac ergyd naturiol mewn llawer telyneg. Y mae'i Gymraeg yn ystwyth a than fendith yr Athro Syr John Morris Jones, Yr Athro T. Gwynn Jones, Y Parch. J. T. Job a'r Athro J. Jenkins (Gwili). Gwnae darllain a thrysori'r telynegion hyn ar y cof les i ben a chalon ieuenctid gwlad a symir y "Murmuron Newydd" i fyny gan y Prifardd Gwynn Jones pan ddywed, "Y dylai darllen telynegion mor sicr beri lles mewn oes mor ansicr a hon."

Priodas.

Mawrth 12, ym Mrondeifi, gan y Parch. Daniel Jones (yn absenoldeb y Gweinidog oherwydd afiechyd) ac ym mhresenoldeb y Cofrestrydd unwyd mewn glân briodas Martha Anne Davies, 2, Barley Mow, Llanbedr ac Albert Perry, o Gaerdydd. Hir oes ac iechyd iddynt.

Marwgofion.

Mawrth 27, yn 70 oed, bu farw yn sydyn John Evans, Crugyfaelog, Llanarth. Claddwyd y lau dilynol yn ymyl ei briod ym mynwent Eglwys Ciliau Aeron, pryd y pregethwyd yn y ty gan y Parch. Conwil Evans, Rhydygwin, a gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer. Gwr o rodiad plaen a syml oedd John Evans. Meddai ar alluoedd naturiol cryfion,—meddwl gwreiddiol ac agored, ag ysbryd tawel

ac annibynol,—nodweddion y sy'n prinhau fel ag y gelwir yr hen gymeriadau hyn ymaith y naill ar ol y llall. Un o ardal Llangybi (Cilgwyn Uchaf) oedd, a lle y mae yr hen fam annwyl o hyd yng ngofal tyner a gofalus y mab a'r ferch, ac ym mhell dros ei 90 oed. Treuliodd dros 40 mlynedd yn y Crug fel amaethwr diwyd a chymydog hynaws a charedig, a theimlir y golled o'i golli gan lawer yn y gymydogaeth heddiw. Gadawodd un mab, mam, brodyr a chwiorydd a lliaws o berthynasau eraill mewn galar ar ei ol. Cydymdeimlwn yn fawr iawn a'r bachgen y bydd yn awr yn unig, a'r fam, brodyr a'r chwiorydd, ac a'r perthynasau i gyd.

Mawrth 28, yn 59 mlwydd oed, Mr. David Thomas, Dancapel, Pantdefaid. Er ys rhai blynyddoedd yr oedd yr ymadawedig yn lythyrgludydd wrth ei alwedigaeth, a gwasanaethodd y swydd honno gyda boddlonrwydd mawr, yn y cylch y teithiai o ddydd i ddydd. Cychwynodd allan y bore uchod, yn ol ei arfer, ond nid aethai ymhell cyn i'r corff brau ballu, a chafwyd ef wedi marw ar y ffordd gerllaw capel Llwynrhydowen. Yr oedd yn gymeriad adnabyddus yn yr ardal ar gyfrif ei alwedigaeth, a hoffid ef gan bawb a'i hadwaenai. Bu am rai blynyddoedd yn dorrwr beddau, ac yn gofalu am fynwent Pantdefaid. Yr oedd yn hynod ofalus a threfnus gyda'r gwaith hwnnw, fel pob gwaith arall. Dygai fawr sel dros yr achos ym Mhantdefaid a bydd ei le'n wâg. Gadawodd weddw a phump o blant mewn galar o'i golli. Y dydd Iau dilynol daeth torf fawr ynghyd pryd y claddwyd ei ran farwol ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchn. R. H. Williams, Carmel; E. O. Jenkins a W. George, curad.

Ebrill y 12fed, yn 72 oed, Sarah Jones, Creuddyn Bridge Post Office, Ystrad. Dioddefodd yr ymadawedig flynyddoedd lawer o gystudd caled ar adegau, yn dawel a dirwgnach. Er wedi ei chyfyngu yn y modd yma i gylch yr aelwyd teimlai ddiddordeb mawr yn yr achos yn Rhydygwin, ac mewn bywyd yn gyffredinol. Meddai ar dymer dawel, ysbryd hynod o siriol a chalon hawddgar a charedig, ac edrychai bob amser ar yr ochr oleu i bob cwmwl du. Gwraig dda, mam dyner a gofalus a brenhines drefnus yr aelwyd yw tystiolaeth y gymdogaeth am dani. Y Sadwrn canlynol cludwyd yr hyn oedd farwol i gladdfa Rhydygwin, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Gadawodd briod, un ferch, a thri mab ynghyd a pherthynasau eraill mewn galar a hiraeth o'i cholli. Caffed y priod a'r ferch a fu yn gweini yn dyner arni am y blynyddoedd meithion hyn bob cymorth a nerth i ddal yn awr y brofedigaeth. Cydymdeimlwn a'r oll.

Dydd Sadwrn, Ebrill 23, yn 51 mlwydd oed, Mary, unig ferch Sarah, a'r diweddar David W. Davies (Brynfardd), Danygraig, Trebanos. Brathir calon pan dremiwn i hanes gorffenol y teulu hwn a gwybod y dioddef a'r dyrnodiau mynych Yr oedd yr ymadawedig yn hoff iawn o ddarllen Cymraeg, a darllenai yn helaeth, yn enwedig y Beibl a'r Testament Newydd, a gwnaeth yn fawr ohonynt hyd y gallodd. Darllenai Gymraeg yn ardderchog, a thrysorodd wmredd o'r ysgrythur ar ei chof, a medrai osod hwnnw at ei gwasanaeth pan fyddai galw am hynny. Codwyd hi yn awyrgylch crefydd yr aelwyd. Coffa da am ei thad, a'i amen a'i adnod, a'i ofyniad a'i ateb, a'i wen a'i ddifrifoldeb,—yn enwedig pan fyddai ar ei liniau. Yn swn ei weddi tynwyd deigryn i rudd llawer i sant trwsgl, a theimlid fod y nefoedd wedi cymeryd llwyr feddiant ohonom. Doed pob cysur eto i'r teulu annwyl, a boed i'r brawd methiedig, ynghyd a'r ddau frawd arall a'r fam hoff, gael y nerth angenrheidiol i wynebu'r hyn sy'n ol heb ei dreulio o'r bywyd yn y byd. Claddwyd y Mercher cyfisol ym mynwent Gellionnen. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees, Trebanos, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Johns, Gosen.

Ar y 25ain o Ebrill, yn 80 oed, bu farw John Davies, Cwmcoedog, ger Mydroilyn, ar ol ychydig ddiwrnodau o gystudd. Collodd ei briod ychydig gyda blwyddyn yn ol. Gadawodd i alaru ar ei ol dri mab, pedair merch, wyrion, un brawd, a nifer luosog o berthynasau. Hebryngwyd ei weddillion i gladdfa'r teulu yn Llanwnnen dydd Gwener dilynol, y cynhebrwng yn anghyoedd, er i nifer o gymdogion ddod i'r gwasanaeth yn y ty. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. D. T. Jones, ficer Mydroilyn, a phregethwyd gan y Parch. D. Evans, Cribyn. Yn Llanwnnen gwasanaethwyd gan y Parchn. D. T. Jones a J. H. Davies (Ficer).

Ar yr 2il o Fai, yn 76 oed, bu farw Jane Davies, Panteg, plwyf Llanbedr, gan adael tri brawd (un o'r rhai a drigai gyda hi yn y lle uchod), un chwaer (a weiniodd yn dyner arni yn ei chystudd), a nifer o berthynasau eraill, mewn galar ar ei hol. Ymaelododd yng Nghapelygroes yn ifanc, a bu'n ffyddlon, hyd y gallodd, hyd y diwedd. Perthynai i dylwyth a fu'n lluosog yn y Capel uchod un adeg ; ond y maent wedi diflannu ymron yn llwyr. Y dydd Iau dilynol cludwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes, a daeth nifer luosog ynghyd i dalu iddi'r gymwynas olaf. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. Owen Davies, curad Llangeler (brodor o'r gymdogaeth), rhoddwyd pennill wrth y drws a darllenwyd y gwasanaeth cladduar lan y bedd gan y Parch. D. G. Rees, Gellionnen, a phregethwyd yn y Capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

Mai 3, Mary Davies, No. 1, Talgarreg, gweddw y diweddar Evan Davies, Croesgwyn, Meinigwynion yn 90 oed. Claddwyd y Gwener dilynol ym Mwlchyfadfa pryd y cafodd angladd lluosog iawn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas. Gadawodd saith o blant a nifer o wyrion i wylo ei cholli. Hen chwaer na allesid peidio ei hoffi oedd Mali Croesgwyn, un ddifyr ei chwmni a llawen iawn ei hysbryd. Pan chwarddai gwnae hynny nes fod yr holl gorff yn siglo. Yr oedd o anian onest, garedig a chymwynasgar. Ar hyd blynyddoedd ei henaint dymunodd yn fawr am ddau beth sef gallu cadw aelwyd ei hun a chael marw'n ddigystudd. Cafodd ei dau ddymuniad. Er y byddai pob un o'r plant yn barod i roddi lle iddi ar eu haelwyd hwy ac i wneud yn fawr ohoni. Hoffai gael ei haelwyd ei hun, cafodd hi ac hyd y diwedd cadwodd hi yn lan a chryno. Bu farw hefyd yn ddigystudd a diloes—bu farw'n esmwyth yn ei chwsg " yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau." Yr oedd yr achos ym Mwlchyfadfa a'r fynwent yn annwyl iawn ganddi.

Ar y 10fed o Fai, bu farw David, baban ychydig ddiwrnodau oed, eiddo i John ac Esther Williams, Derlwyn, Cribyn. Claddwyd ym mynwent Cribyn dydd Sadwrn, y gweinidog yn gwasanaethu.

Ar yr 11eg o Fai, yn 73 oed, bu farw Rachel, gweddw y diweddar Thomas Gwarnant Williams, a mam y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr, yng Ngwarnant, plwyf Llanwenog. Dioddefodd gystudd maith a phoenus ; ac er mai croes i deimlad ei phlant yw ei cholli, eto da oedd iddi gael rhyddhad. Gadawodd i alaru ar ei hol dri mab, un ferch a weiniodd yn dyner arni yn ei chystudd, a pherthynasau lluosog eraill, mewn galar ar ei hol. Benyw gartrefol ydoedd, ei chartref oedd ei theyrnas, a bu'n briod a mam dyner a gofalus. " Ei phlant a godant i fyny, ac a'i galwant yn wynfydedig." Dydd Sadwrn dilynol hebryngwyd ei gweddillion gan dyrfa anarferol luosog i fynwent Capelybryn, i ymyl gweddillion ei phriod ac amryw o'i phlant. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Capelygroes ; gwasanaethwyd yn y Capel gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, ac ar lan y bedd gan y Parch. Collwyn Morgan, Alltyplaca.

Ar yr 11eg o Fai, yn 6 oed, bu farw Iris Myfanwy, annwyl ferch y Parch. a Mrs. Conwil Evans, Henllys, plwyf Ystrad. Byr iawn a fu ei chystudd—dim ond rhyw ddau ddiwrnod. Y mae marw yn osodiad Duw. Ond y mae'n hawddach dygymod a marw mewn rhai amgylchiadau nag mewn amgylchiadau eraill. Y mae marw rhai ieuainc fel hyn yn cyffwrdd a llinynnau tyneraf ein calon. "Methu dal mae natur dan ei chroes weld blodyn tlws yn gwywo 'ngwanwyn oes." A thrwm yw'r groes a esyd marw eu merch fach ar y tad a'r fam a'r chwaer fechan, a'r perthynasau eraill. Cydymdeimlir yn fawr iawn a hwynt yn eu trallod. Sugnent gysur o'r meddwl mai "eiddo'r cyfryw rai yw terynas nefoedd." Claddwyd ym mynwent Rhydygwin y Sadwrn dilynol, a daeth tyrfa luosog ynghyd fel arwydd o'u cydymdeimlad. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. W. Phillips, Tyngwndwn; canwyd emyn wrth y drws ac ar lan y bedd gan blant ei dosbarth yn yr Ysgol ddyddiol dan arweiniad eu hathrawes; pregethwyd yn y Capel gan y Parch. D. Evans, Cribyn, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Mawrth 22, yn 81 mlwydd oed bu farw ar ol cystudd caled yn y diwedd David Evans, Morfa Cottage, Lampeter. Gweithiwr fu ar hyd ei oes ynghylch Llanbedr a chodedd deulu lluosog i fyny. Claddwyd ym mynwent Brondeifi ar y 26ain, a gwasanaethwyd gan y Parchn. Eurig Davies, B.A., B.D., David Evans a T. Oswald Williams, M.A. Gadawodd weddw oedranus, pedair merch ac un mab mewn galar o'i golli.

Mai 14, yn 45 mlwydd oed, Tom Evans, mab yr uchod, yn ddisymwth iawn. Gweithiai yng nglofa Nantgwyn ac aeth dan y cwymp. Gwr parchus ydoedd gan ei gydweithwyr ac iddo air da. Claddwyd y dydd Iau dilynol yng nghladdfa gyhoeddus Trealaw, Y Parch. Mr. Griffiths yn gwasanaethu. Gadawodd briod, mam oedranus a phedair chwaer mewn hiraeth ar ei ol.

Mai 17, yn 45 mlwydd oed, Mr. John Jones, Bwlchyffin, Llangeler. Digwyddiad achosodd dristwch mawr i'r teulu ac i'r ardalwyr ydoedd symudiad disymwth ac annisgwyliadwy yr ymadawedig. Dyn tawel, distaw, ac iddo air da gan ei gydnabod ydoedd. Y dydd Sadwrn dilynol daeth torf luosog i hebrwng ei ran farwol i fynwent Saron, Llangeler. Gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y Parch. T. Arthur Thomas yn cael ei gynnorthwyo yn y ty gan y Parch. T. Lloyd Jones, Pencader. Gadawodd weddw a thri o blant heblaw perthynasau eraill mewn galar ar ei ol. Nodded y nef fo drostynt.

Mai 21, yn 35 mlwydd oed, wedi cystudd maith o'r darfodedigaeth Tom Elias Jones, St. Thomas Street, Lampeter. Bachgen caredig oedd Tom ond fe'i drylliwyd yn y Rhyfel Mawr ac ni fu ond poen a nychdod o'i flaen er hyny. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. T. O. Williams ac yn yr Eglwys gan Gurad y Plwyf. Gadawodd briod, dau blentyn, brawd a chwaer mewn hiraeth ar ei ol. Hwyr Sul, Mai 29 ym Mrondeifi pregethwyd ei bregeth goffa gan y Gweinidog i gynulleidfa luosog.

Nodion yr Eglwysi.

CYMANFA GANU SIR ABERTEIFI.—I lawer o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd nad ydynt wedi dod o hyd i Raglen y Gymanfa bydded hysbys iddynt mae dydd Llun y 13eg o'r mis hwn y cynhelir yr Wyl yng nghapel Soar, Llanbedr. Hyderwn y gwna pawb yn ieuainc ac mewn oed gyrchu yno yn y bore erbyn 10.30 fel bo gwaith y dydd yn cael cychwyniad da yng nghyfarfod y plant.

A fydd ein gweinidogion ac eraill sydd a threfniadau y Gymanfa yn eu llaw alw i sylw y gwahanol eglwysi y sylwadau pwrpasol wnaed yng Nghymanfa Ysgolion Sul yng Nghaeronnen pwy ddydd, sef :—

(*a*) Pob un a thocyn "Mynediad i'r Galeri" ei ddangos i wylwyr y drysau.
(*b*) Cael tawelwch a distawrwydd yn ystod y cyfarfodydd er lles a budd y canu yn yr ystyr uchaf fel bo yr oll o'r gwaith o ganlyniad yn dwyn gwedd mwy dwyfol a chysegredig.
(*c*) Penodi casglyddion cyn amser y cyfarfodydd.

Gwnaed pob un ei ran a bydd yr effaith yn sicr.

T. Davies, (*Ysg.*).

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.—Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Chwarterol ym Mhantdefaid dydd Mercher ac Iau yn wythnos y Pasc. Yr oedd yr hin yn deg iawn, a rhwystrwyd llawer o wyr a gwragedd y tir i fod yn bresennol, am fod y cynhaeaf gosod yn galw am danynt. Er hynny daeth cynulliadau lluosog i'r holl gyfarfodydd, ac yr oedd ein holl eglwysi yng Ngheredigion yn cael eu cynrychioli a rhai o Forgannwg. Pregethwyd yn y gwahanol oedfaon gan y Parchn. D. Conwil Evans, Rhydygwin, E. R. Dennis, Aberdar; D. G. Rees, Gellionnen a Dr. Griffiths, Aberystwyth. Dechreuwyd y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchn. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; D. Rhydderch, B.A., Seion, Llandysul, a Mr. John Marles Thomas, myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin. Croesawyd a gweiniwyd ar y dieithriaid gan wragedd a merched ieuainc yr eglwys, a chafwyd cyfarfodydd wrth ein bodd. Hyderwn y bydd ffrwythau'r ysbryd yn fwy amlwg mewn canlyniad.

PANTDEFAID.—Sadwrn Mai 14, mwynhawyd gwledd gyfoethog gan aelodau Ysgol Sul yr uchod ynghyd ac eraill o'r eglwys ac o'r ardal. Rhoddwyd y wledd hon gan Mr. a Mrs. Jones, Garthowen, ac ni arbedasant ddim er ei gwneud yn llwyddiannus iawn. Cafodd y plant ddiwrnod i'w gofio. Gyda rhannu melusion ac afalau rhoddwyd gwobrau iddynt am chwaraeon. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod diddorol iawn mewn canu ac adrodd gan y plant yn gyfangwbl. Rhanwyd gwobrwyon i ddeuddeg a deugain o'r plant am ffyddlondeb yn yr Ysgol Sul. Teg ydyw dweyd fod cyfaill anadnabyddus wedi rhoddi y gwobrau hyn, ynghyd a'r gwobrau am y chwaraeon, ac addawodd yr un peth eto flwyddyn nesaf. Cadeiriwyd mewn modd deheuig iawn gan Mr. Josiah Jones, Garthowen, a chynghorodd y plant i fod yn ffyddlon gyda'r Ysgol Sul. Wedi talu y diolchiadau arferol terfynwyd drwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau."

BRONDEIFI.—Ar brynhawn Mercher, Ebrill y 27, cynhaliodd eglwys Brondeifi ei gwyl dê flynyddol. Rhoddwyd y wledd eleni gan deuluoedd Pantnewydd, Postgwyn a'r Hendai, ac y mae'r enwau'n ddigon o dystiolaeth am y wledd. Daeth nifer luosog ynghyd a chafwyd prynhawn cysurus. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Adloniadol a Chystadleuol o radd uchel. Yr oedd y plant wedi'u dysgu'n rhagorol ac yn glod i'w hathrawon (ond gwell peidio eu henwi) a chanasant "Y Ddoli," "Oranges and Lemons," "Y Gofiaid" a'r "Shepherdesses" a chaneuon eraill yn brydferth dros ben, a thalai'r cyfarfod blynyddol pe rhoddai ddim ond symbyliad i addysgu'r plant. Ni soniaf am y cystadleuaethau ond yr oeddent o radd uchel. Cadeiriwyd yn ddeheuig gan Mr. Tom Lloyd. Arweiniwyd gan Mr. Enoch Davies, a chlorianwyd yr adroddwyr a'r cantorion gan y Parch. J. E. Williams, Llanddewibrefi.

(*Oherwydd diffyg gofod, bu raid cadw rhai Nodion yr Eglwysi hyd y rhifyn nesaf.*)

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,

CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF SUMMER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1900 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.